- (b) tynnu sylw'r rhai y mae'n ymddangos bod ganddynt fuddiant mewn tir a ddangosir fel tir adran 4(2) ar fap dros dro, drwy ba ddull bynnag sy'n briodol, y ffaith bod y map hwnnw wedi'i ddyroddi ac ym mhle y gellir ei archwilio.

(2) Ni fydd y ddyletswydd sy'n cael ei gosod o dan baragraff (1) yn rhagfarnu dyletswyddau'r Cyngor o dan reoliad 4 ond ni fydd unrhyw fethiant ar ran y Cyngor i gyflawni'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan baragraff (1) mewn perthynas â map dros dro yn annilysu dyroddi'r map dros dro hwnnw gan y Cyngor neu unrhyw gamau eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor neu'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymryd o dan y Rheoliadau hyn.

Apeliadau gan bersonau y mae ganddynt fuddiant mewn tir sy'n cael ei gynnwys ar fap dros dro

6.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni all apêl gael ei gychwyn ond trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau at y Cynulliad Cenedlaethol fel ei bod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) gall apêl hefyd gael ei gychwyn trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl wedi'i chwblhau fel ei bod yn dod i law ar ôl diwedd y cyfnod apêl os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried nad oedd hi'n rhesymol ymarferol i'r apelydd gydymffurfio â gofynion paragraff (1) ar yr amod bod y ffurflen apêl wedi'i chwblhau yn dod i law o fewn pa gyfnod bynnag ar ôl diwedd y cyfnod apêl y barna'r Cynulliad Cenedlaethol ei fod yn rhesymol.

(3) Nid yw paragraph (2) yn gymwys i ffurflen apêl sy'n dod i law'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r Cyngor o dan reoliad 7(1) mewn perthynas â map dros dro neu darn o fap dros dro sy'n cynnwys y tir y mae'r ffurflen apêl yn ymwneud ag ef.

General duty to inform the public of the provisions of provisional maps

5.-(1) The Council must consider and give effect to such steps as are reasonable in order to inform the public of the contents of provisional maps and must in particular consider the desirability of:

- (a) making available during the provisional period, so far as is practicable, information published on any website they maintain on the internet which:
 - (i) is equivalent to that shown on provisional maps, but shown by means of smaller scale maps; and
 - (ii) includes that contained in any draft map modification statements which relate to them; and
- (b) bringing to the attention of those appearing to have an interest in land shown as section 4(2) land on a provisional map, by whatever means are appropriate, the fact that such map has been issued and where it can be inspected.

(2) The duty imposed by paragraph (1) is to be without prejudice to the duties of the Council under regulation 4 but any failure on the part of the Council to discharge the duty imposed by paragraph (1) in relation to a provisional map is not to invalidate the issue of that provisional map by the Council or any other action required to be taken by the Council or the National Assembly under these Regulations.

Appeals by persons having an interest in land included on a provisional map

6.-(1) Subject to paragraphs (2) and (3), an appeal may only be brought by sending or delivering to the National Assembly a completed appeal form which is received before the end of the appeal period.

(2) Subject to paragraph (3), an appeal may also be brought by sending or delivering to the National Assembly a completed appeal form which is received after the end of the appeal period if the National Assembly considers that it was not reasonably practicable for the appellant to comply with the requirements of paragraph (1) and provided the completed appeal form is received within such further period after the end of the appeal period as the National Assembly considers reasonable in the circumstances.

(3) Paragraph (2) does not apply to an appeal form received by the National Assembly after the National Assembly has given notice to the Council under regulation 7(1) in relation to the provisional map or part of a provisional map which includes the land to which the appeal form relates.

(4) Os bydd person sy'n dymuno cychwyn apêl yn anfon datganiad ysgrifenedig o'r dymuniad hwnnw at y Cynulliad Cenedlaethol neu yn mynd ag ef ato, fel ei fod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl, bennir bod ffurflen apêl wedi'i chwblhau wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl, os bydd y person hwnnw yn anfon neu yn mynd ag un at y Cynulliad Cenedlaethol o fewn pa gyfnod bellach bynnag y bydd y Cynulliad Cenedlaethol trwy hysbysiad ysgrifenedig yn pennu.

(5) Rhaid i ffurflen apêl wedi'i cwblhau gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- (a) Enw, cyfeiriad a chod post yr apelydd;
- (b) digon o fanylion am y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef i wneud hi'n bosibl i adnabod y tir hwnnw, gan gynnwys copi o'r map dros dro neu ddarn ohono gyda ffiniau'r tir hwnnw wedi'u marcio arno'n glir;
- (c) y manylion hynny a fydd yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a'r Cyngor i ddeall seiliau'r apêl, a'r rheiny'n seiliau sydd o fewn adran 6(3)(a) neu (b) o'r Ddeddf;
- (ch) natur buddiant yr apelydd yn y tir y mae'r apêl yn ymwneud ag ef;
- (d) a yw'r apelydd yn dymuno cael ei glywed gan berson a apwyntiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cysylltiad â'r apêl (yn hytrach na bod yr apêl yn cael ei benderfynu ar sail sylwadau ysgrifenedig) ac, os felly, a yw'n dymuno cael ei glywed mewn ymchwiliad lleol neu, fel arall, mewn gwrandawiad.

(6) Gall ffurflen apêl fod yn Gymraeg neu Saesneg ond os yw'r apelydd yn dymuno i'r apêl gael ei thrin yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng un o'r ddwy iaith heblaw'r un y mynegir yr hysbysiad apêl ynddi, dylai cais i'r perwyl hwnnw gael ei gynnwys yn yr hysbysiad apêl neu gael ei amgáu gyda'r hysbysiad.

Paratoi mapiau i'w dyroddi fel mapiau terfynol

7.-(1) Os bydd pob apêl o dan adran 6 o'r Ddeddf a gychwynwyd yn unol â rheoliad 6, mewn perthynas â:

- (a) map dros dro; neu,
- (b) os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu cyfarwyddo'r Cyngor o dan adran 9(3) neu 9(4) o'r Ddeddf i ddyroddi rhan o fap dros dro fel map ar ffurf derfynol, rhan felly o fap dros dro,

naill ai wedi eu penderfynu neu wedi eu tynnu'n ôl, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r Cyngor o'r ffaith hwnnw.

(4) If a person who wishes to bring an appeal sends or delivers to the National Assembly written notice of that intention which is received before the end of the appeal period then, provided that person sends or delivers to the National Assembly a completed appeal form within such further period as the National Assembly may; by giving written notice to that person, require, that appeal form is to be treated as if it had been received before the end of the appeal period.

(5) The information which a completed appeal form must contain is:

- (a) the name, address and postcode of the appellant;
- (b) sufficient particulars of the land to which the appeal relates as to enable that land to be identified, including a copy of the provisional map or an extract from it on which the boundaries of that land are clearly marked;
- (c) such particulars as will enable the National Assembly and the Council to understand the grounds, being grounds which fall within section 6(3)(a) or (b) of the Act, on which the appeal is brought;
- (d) the nature of the interest of the appellant in the land which is subject to the appeal;
- (e) whether the appellant wishes to be heard by a person appointed by the National Assembly in connection with the appeal (rather than that the appeal be determined on the basis of written representations) and, if so, whether the appellant wishes to be heard at a local inquiry or, alternatively, at a hearing.

(6) An appeal form may be in either the English language or the Welsh language but if the appellant wishes the appeal to be dealt with in whole or in part through the medium of the language other than that in which the appeal form is expressed, the appeal form should incorporate or be accompanied by a request to that effect.

Preparation of maps to be issued as conclusive maps

7.-(1) If, in respect of:

- (a) a provisional map; or,
- (b) if the National Assembly proposes to direct the Council under section 9(3) or 9(4) of the Act to issue as a map in conclusive form a part of a provisional map, such part of a provisional map,

all appeals under section 6 of the Act which have been brought in accordance with regulation 6 have either been determined or have been withdrawn, the National Assembly must give notice of that fact to the Council.

(2) Rhaid i'r Cyngor, pan fydd wedi derbyn hysbysiad o dan baragraff (1), ac yn unol â:

- (a) unrhyw addasiad i fap dros dro y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ei fynnu yn unol ag adran 6(4)(a) o'r Ddeddf;
- (b) unrhyw gyfarwyddyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 9(3) neu 9(4) o'r Ddeddf y dylid dyroddi fel map terfynol fap sy'n cyfateb i ran o ardal map dros dro; a
- (c) unrhyw benderfyniad gan y Cyngor o dan adran 9(1) neu 9(2) o'r Ddeddf y dylid dyroddi fel map terfynol fap sy'n cyfateb i ran o ardal map dros dro;

baratoi map neu fapiau sy'n seiliedig ar y map dros dro hwnnw, neu'r rhan honno o fap dros dro, y mae'r hysbysiad o dan baragraff (1) yn ymwneud ag ef, ar gyfer ei ddyroddi fel map terfynol yn unol ag adran 9(1), (2), (3) neu (4) (fel y digwydd).

Dyroddi mapiau terfynol

8.-(1) Cymerir bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd yn unol ag adran 9(1), (2), (3) neu (4) o'r Ddeddf (fel y digwydd) i ddyroddi map terfynol pan fydd gyntaf yn cyhoeddi hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw yn unol â pharagraff (2)(ch) o'r rheoliad hwn.

(2) Nid oes hawl gan y Cyngor gyhoeddi hysbysiad dyroddi map dros dro nes ei fod:

- (a) wedi gwneud trefniadau ar gyfer cadw ym mhencadlys y Cyngor gopi printiedig o'r map terfynol wedi ei arnodi gyda datganiad mai ef yw'r copi o'r map terfynol a gedwir at ddibenion yr is-baragraff hwn;
- (b) wedi gwneud unrhyw drefniadau sydd o fewn ei bŵer i sicrhau bod copi o'r map terfynol hwnnw, ar ffurf brintiedig ac, os yw'n bosibl, ar ffurf electronig, ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol (yn ddarostyngedig, yn achos archwilio mewn swyddfeydd heblaw swyddfeydd ei hun, i unrhyw ofyniad ar gyfer gwneud apwyntiadau i wneud hynny a fynnir gan yr awdurdod perthasol) drwy gydol y cyfnod apêl:
 - (i) ym mhencadlys y Cyngor a swyddfa leol y Cyngor, sef y swyddfa agosaf at yr ardal y mae'r map dros dro yn ymwneud â hi heb gynnwys unrhyw swyddfa nad yw'n agored yn ystod oriau swyddfa arferol; a
 - (ii) yn ystod y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y dyddiad y dyroddwyd y map terfynol arno, ym mhencadlys pob awdurdod lleol perthnasol a phob awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol, os o gwbl;
- (c) wedi anfon copi o'r map terfynol hwnnw, naill ai ar ffurf brintiedig ar raddfa nad yw'n llai nag 1:25,000 neu, os yw'r Cyngor a'r sawl sydd i'w

(2) The Council must, when it has received notice under paragraph (1), and in accordance with:

- (a) any modification required by the National Assembly to be made to a provisional map in accordance with section 6(4)(a) of the Act;
- (b) any direction by the National Assembly under section 9(3) or 9(4) of the Act that a map which covers part of the area of a provisional map is to be issued as a conclusive map; and
- (c) any decision by the Council under section 9(1) or 9(2) of the Act that a map which covers part of the area of a provisional map is to be issued as a conclusive map;

prepare a map or maps based on that provisional map or any part of it to which the notice under paragraph (1) relates for issue in accordance with the provisions of section 9(1), (2), (3) or (4) (as the case may be) as a conclusive map or maps.

Issue of conclusive maps

8.-(1) The Council is to be taken to have discharged its duty under section 9(1), (2), (3) or (4) of the Act (as the case may be) to issue a conclusive map when it first publishes a notice of issue of that conclusive map in accordance with paragraph (2)(d) of this regulation.

(2) The Council must not publish a notice of issue of a conclusive map until it has:

- (a) made arrangements for the preservation at its head office of a printed copy of the conclusive map endorsed with a statement that it is the copy of the provisional map preserved for the purposes of this sub-paragraph;
- (b) made such arrangements as are within its power for a copy of the conclusive map to be made available for inspection in printed form and, where possible in electronic form, by members of the public at all reasonable times (subject, in the case of inspection at offices other than its own, to such requirements for the making of appointments to do so as the relevant authority may require) at:
 - (i) the head office of the Council and the local office of the Council, not including any office which is not open during normal office hours, which is nearest to the area to which the conclusive map relates; and
 - (ii) during the period of one year beginning on the date on which the conclusive map was issued, the head office of each relevant local authority and relevant National Park authority, if any;
- (c) despatched a copy of the conclusive map either in printed form to a scale of not less than 1:25,000 or, if the Council and the recipient

- dderbyn yn cytuno, ar ffurf electronig, ynghyd â hysbysiad sy'n cynnwys yr union wybodaeth â'r hyn y mae'n ofynnol ei gynnwys yn hysbysiad dyroddi'r map terfynol, i bob un o'r cyrff a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn ac at unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol;
- (ch) wedi cyhoeddi'r hysbysiad dyroddi'r map terfynol hwnnw, sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff (3), mewn o leiaf un papur newydd dyddiol sy'n cylchredeg drwy'r rhan gyfan honno o Gymru sy'n cynnwys yr ardal y mae'r map terfynol hwnnw yn ymwneud â hi ac unrhyw bapurau newydd neu gyhoeddiadau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol;
 - (d) wedi anfon copi o hysbysiad dyroddi'r map terfynol hwnnw i bob un o'r llyfrgelloedd cyhoeddus a restrir yn Atodlen 2, gyda chais iddo gael ei arddangos i'r cyhoedd yn y llyfrgell honno;
 - (dd) wedi anfon at y Cynulliad Cenedlaethol gopi o'r map terfynol (neu os nad yw yn cael ei anfon drwy ddull electronig, ddau gopi) ynghyd â chopi o'r hysbysiad dyroddi sy'n ymwneud ag ef.

- (3) Rhaid i hysbysiad dyroddi map terfynol:
 - (a) nodi'r ardal y mae'r map terfynol yn ymwneud â hi;
 - (b) datgan mai effaith y map terfynol yw dangos y darnau o dir adran 4(2) y bydd gan y cyhoedd y gallu i ymarfer yr hawl mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf, pan ddaw'r ardal honno i rym, mewn perthynas â hwy, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r cyfyngiadau y mae'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer;
 - (c) rhoi manylion am sut y gall aelodau o'r cyhoedd archwilio copi o'r map terfynol a datgan mai trwy wneud apwyntiad o flaen llaw yn unig y gallant wneud hynny petaent yn dymuno gwneud hynny ar ôl diwedd y cyfnod o flwyddyn sy'n dechrau ar y dyddiad y dyroddwyd y map terfynol arno;
 - (ch) datgan y gall unrhyw berson, trwy gais ysgrifenedig at y Cyngor, fynnu i'r Cyngor ddarparu ar gyfer y person hwnnw un copi o'r map terfynol neu o ddarn o'r map terfynol sy'n ymwneud â rhan penodedig o'r map y mae'r cais yn ymwneud ag ef, sef copi neu gopïau y mae'n rhaid iddynt fod ar ffurf brintiedig neu, os yw'r Cyngor a'r person hwnnw yn cytuno, ar ffurf electronig;
 - (d) datgan bod dyletswydd y Cyngor i ddarparu copi o'r dogfennau a gyfeirir atynt yn is-baragraff (ch) yn ddyletswydd:
 - (i) yn achos cais ysgrifenedig gan berson sydd â buddiant mewn unrhyw dir a ddangosir ar y map terfynol fel tir adran 4(2), lle bo'r cais hwnnw yn nodi natur y buddiant

agree, in electronic form, together with a notice containing the same information as that required to be contained in the notice of issue of the conclusive map to each of the organisations specified in Schedule 1 to these Regulations and to such other persons as it considers appropriate;

- (d) published the notice of issue of the conclusive map, complying with the requirements of paragraph (3), in at least one daily newspaper circulating throughout that part of Wales which includes the area to which that map relates and such other newspapers or publications circulating in that part of Wales as the Council thinks fit;
- (e) sent a copy of the notice of issue of the conclusive map, to each of the public libraries listed in Schedule 2, accompanied by a request that it be displayed to the public at that library; and
- (f) sent the National Assembly a copy (or if not sent by electronic means, two copies) of the conclusive map together with a copy of the notice of issue relating to it.

- (3) A notice of issue of a conclusive map must:
 - (a) identify the area to which the conclusive map relates;
 - (b) state that the effect of the conclusive map is to show the areas of section 4(2) land over which the public will, subject to such exceptions and restrictions as the Act provides, be entitled to exercise a right of access under section 2 of the Act when that section comes into force;
 - (c) give particulars of the means by which members of the public may inspect a copy of the conclusive map and state that if they wish to do so after the expiry of the period of one year beginning on the date when the conclusive map was issued, they may only do so by prior appointment;
 - (d) state that any person may, by a request in writing to the Council, require the Council to provide that person with one copy of the conclusive map or of an extract from the conclusive map relating to an identified part of the map to which the request relates, which copy or copies must be in printed form or, if the Council and that person agree, in electronic form;
 - (e) state that the Council's duty to provide a copy of the documents set out in sub-paragraph (d) is a duty:
 - (i) in the case of a request in writing by a person who has an interest in any land shown on the conclusive map as section 4(2) land, whose request identifies the

hwnnw a'r tir y mae'n ymwneud ag ef, ac ar yr amod na wnaed cais blaenorol gan y person hwnnw, i ddarparu un copi o'r map neu ddarn ohono yn rhad ac am ddim; a

- (ii) ym mhob achos arall, i ddarparu copi felly ar ôl derbyn tâl o ba bynnag ffi y mae'r Cyngor yn hawlio'n rhesymol;
- (dd) datgan y cyfeiriad y dylid anfon unrhyw gais o dan is-baragraff (ch) iddo;
- (e) datgan y dyddiad y dyroddwyd y map terfynol arno.

(4) Gall unrhyw hysbysiad sy'n cael ei gyhoeddi yn unol â pharagraff (2)(ch) neu sy'n cael ei anfon yn unol â pharagraff (2)(d), yn ychwanegol at unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys o dan baragraff (3), gynnwys unrhyw wybodaeth bellach y gŵel y Cyngor yn dda.

Dyletswydd gyffredinol i roi gwybod i'r cyhoedd am ddarpariaethau mapiau terfynol

9.-(1) Rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw gamau sy'n rhesymol er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am gynnwys mapiau terfynol a rhoi'r camau hynny ar waith a rhaid iddo ystyried yn benodol a yw'n ddymunol:

- (a) rhoi ar gael, cyhyd â'i bod yn ymarferol, wybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi ar unrhyw wefan y mae'n ei chynnal ar y rhyngrwyd sydd yn cysfateb i'r hyn sy'n cael ei ddangos ar fapiau terfynol, ond yn cael ei arddangos trwy gyfrwng mapiau ar raddfa llai; a
- (b) tynnu sylw'r rhai y mae'n ymddangos bod ganddynt fuddiant mewn tir a ddangosir fel tir adran 4(2) ar fap terfynol, drwy ba ddull bynnag sy'n briodol, at yffaith bod y map hwnnw wedi'i ddyroddi ac ym mhle y gellir ei archwilio.

(2) Ni fydd y ddyletswydd sy'n cael ei gosod o dan baragraff (1) yn rhagfarnu dyletswyddau'r Cyngor o dan reoliad 8, ond ni fydd unrhyw fethiant ar ran y Cyngor i gyflawni'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan baragraff (1) mewn perthynas â map terfynol yn annilysu dyroddi'r map terfynol hwnnw gan y Cyngor neu unrhyw gamau eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor neu'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymryd o dan y Rheoliadau hyn.

Yr hawl i archwilio ac i dderbyn copïau

10. Lle bo gofyniad o dan y Rheoliadau hyn i'r Cyngor hysbysu unrhyw berson y gall dogfen gael ei harchwilio gan y person hwnnw neu fod yn rhaid darparu dogfen ar gyfer y person hwnnw yna, os bydd y person hwnnw wedi cydymffurfio ag unrhyw amod y mae'r gofyniad hwnnw yn ddarostyngedig iddo, rhaid

nature of that interest and the land to which it relates, and provided that person has not previously made such a request relating to that land, to provide one copy of the map or extract from it free of charge; and

- (ii) in all other cases, to provide such copy on payment of such fee as the Council may reasonably require;
- (f) state the address to which any request under sub-paragraph (d) should be sent; and
- (g) state the date on which the conclusive map was issued.

(4) Any notice published in accordance with paragraph (2)(d) or sent in accordance with paragraph (2)(e) may, in addition to such information as is required to be included under paragraph (3), include such further information as the Council shall think fit.

General duty to inform the public of the provisions of conclusive maps

9.-(1) The Council must consider and give effect to such steps as are reasonable in order to inform the public of the contents of conclusive maps and must in particular consider the desirability of:

- (a) making available, so far as is practicable, information equivalent to that shown on conclusive maps by means of smaller scale maps, published on any website they maintain on the internet; and
- (b) bringing to the attention of those appearing to have an interest in land shown as section 4(2) land on a conclusive map, by whatever means are appropriate, the fact that such map has been issued and where it can be inspected.

(2) The duty imposed by paragraph (1) is to be without prejudice to the duties of the Council under regulation 8, but any failure on the part of the Council to discharge the duty imposed by paragraph (1) in relation to a conclusive map is not to invalidate the issue of that conclusive map by the Council or any other action required to be taken by the Council or the National Assembly under these Regulations.

Rights to inspect and receive copies

10. Where, under any provision of these Regulations, the Council is required to give notice to any person that a document may be inspected by that person or that a document is required to be supplied to that person then, if the person in question has complied with any condition to which that requirement is

i'r Cyngor rhoi effaith i'r gofyniad hwnnw.

Dogfennau ar ffurf electronig a defnydd o ddulliau electronig o gyfathrebu

11.-(1) Rhaid i unrhyw fap neu ddogfen y mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi neu yn gorchymyn y dylid eu paratoi, eu dyroddi neu eu rhoi ar gael ar gyfer cael eu harchwilio, ar ffurf electronig, fedru gael eu hadgynhyrchu ar ffurf brintiedig.

(2) Yn ddarostyngedig i unrhyw ddarpariaethau o'r Rheoliadau hyn sy'n dynodi neu yn awdurdodi'r dull y mae'n rhaid ei ddefnyddio ar gyfer anfon map neu ddogfen arall o un person at berson arall, gall unrhyw ddogfen, gan gynnwys un y mae'r Rheoliadau hyn yn mynnu ei bod ar ffurf ysgrifenedig, gael ei hanfon, fel dull amgen i unrhyw ddull arall, drwy gyfrwng cyfathrebu electronig, ar yr amod bod gan y person sy'n anfon y ddogfen sail resymol i gredu y daw'r ddogfen i sylw'r person yr anfonir hi ato, mewn ffurf ddarllenadwy, o fewn amser rhesymol.

Diwygio'r Rheoliadau Mapiau Drafft

12.-(1) Mae'r Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001(a) yn cael eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn nhestun Saesneg Atodlen 1, dilëwch y geiriau "National Park authorities in Wales" ac, ar y llinell nesaf i lawr o'r geiriau "Ramblers' Association", mewnosodwch y geiriau "relevant National Park authorities".

(3) Mae'r diwygiad a wneir gan baragraff (2) i effeithio'n unig ar fap drafft a ddyroddir ar y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu ar ôl hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(b)

9 Gorffennaf 2002

John Marek

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

subject, the Council must give effect to that requirement.

Documents in electronic form and the use of communication by electronic means

11.-(1) Any map or other document authorised or required by these Regulations to be prepared, issued or made available for inspection in electronic form must be capable of being reproduced in printed form.

(2) Subject to any provisions of these Regulations prescribing the method by which a copy of a map or other document is required or authorised to be sent by one person to another, any such document, including one which these Regulations require to be in written form, may, as an alternative to any other method, be sent by means of an electronic communication, provided the person who sends the document has reasonable grounds for believing that the document will come to the attention of the person to whom it is sent, in legible form, within a reasonable time.

Amendment of the Draft Maps Regulations

12.-(1) The Countryside Access (Draft Maps) (Wales) Regulations 2001(a) are amended as follows.

(2) In the English language text of Schedule 1, omit the words "National Park authorities in Wales" and, on the next line down from the words "Ramblers' Association", insert the words "relevant National Park authorities".

(3) The amendment made by paragraph (2) is to have effect only in relation to a draft map issued on or after the day on which these Regulations come into force.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(b)

9th July 2002

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

(a) O.S. 2001/4001 (Cy.329).

(b) 1998 p.38.

(a) S.I. 2001/4001 (W.329).

(b) 1998 c.38.

ATODLEN 1

Rheoliadau 4(2)(b) a 8(2)(c)

CYRFF I GAEL EU HYSBYSU YN UNOL Â RHEOLIADAU 4(2)(b) AC 8(2)(c)

Asiantaeth yr Amgylchedd

Yr Asiantaeth Cefn Gwlad (os oes gan dir sydd wedi'i gynnwys mewn map dros dro ffin â Lloegr)

Awdurdodau lleol perthnasol

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol perthnasol

Y Comisiwn Coedwigaeth

Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned yng Nghymru y mae'r ardal y maent yn gyfrifol amdani yn cynnwys tir sydd wedi'i gynnwys mewn map dros dro neu derfynol

Cyngor Mynydda Prydain

Cymdeithas y Cerddwyr

Cymdeithas y Mannau Agored

Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

Fforymau Mynediad Lleol y mae ardal eu cyfrifoldeb yn cynnwys tir o fewn y map dros dro neu derfynol

Y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Saethu a Chadwraeth

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr, Cymru

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Ymddiriedolaethau archaeolegol perthnasol

Ystad y Goron

SCHEDULE 1

Regulations 4(2)(b) and 8(2)(c)

ORGANISATIONS TO BE NOTIFIED PURSUANT TO REGULATIONS 4(2)(b) AND 8(2)(c)

British Association for Shooting and Conservation

British Mountaineering Council

Country Land and Business Association

The Countryside Agency (where land included in the provisional or conclusive map has a border with England)

The Crown Estate

The Environment Agency

Farmers' Union of Wales

Forestry Commission

Local Access Forums whose area of responsibility covers land included in the provisional or conclusive map

The Ministry of Defence

National Farmers' Union Wales

National Trust Wales

Open Spaces Society

Ramblers' Association

Relevant Archaeological Trusts

Relevant local authorities

Relevant National Park authorities

Town and Community Councils in Wales whose area of responsibility covers land included in the provisional or conclusive map

ATODLEN 2

Rheoliadau 4(2)(ch) ac 8(2)(d)

LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS Y DYLIÐ ANFON HYSBYSIAD IDDYNT YN UNOL Â RHEOLIAD 4(2)(ch) AC 8(2)(d)

Aberdâr
Aberhonddu
Aberteifi
Aberystwyth
Bae Colwyn
Bangor
Y Barri
Brynmawr
Caerdydd Canolog
Caerfyrddin
Caernarfon
Cas-gwent
Castell-nedd
Casnewydd Canolog
Coed-duon
Cwmbrân
Doc Penfro
Dolgellau
Y Drenowydd
Dwyrain Abertawe
Grangetown
Hwlfordd
Llandrindod
Llandudno
Llanelli
Llangefni
Llanrwst
Maesteg
Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr

SCHEDULE 2

Regulations 4(2)(d) and 8(2)(e)

PUBLIC LIBRARIES TO WHICH NOTICE IS TO BE SENT PURSUANT TO REGULATIONS 4(2)(d) AND 8(2)(e)

Aberdare
Aberystwyth
Bangor
Barry
Blackwood
Brecon
Bridgend
Brynmawr
Caernarfon
Cardiff Central
Cardigan
Carmarthen
Chepstow
Colwyn Bay
Cwmbran
Dolgellau
Flintshire
Grangetown
Haverfordwest
Llandrindod Wells
Llandudno
Llanelli
Llangefni
Llanrwst
Maesteg
Merthyr Tydfil
Neath
Newport Central
Newtown
Pembroke Dock

Penarth	Penarth
Pontypridd	Pontypridd
Port Talbot	Port Talbot
Pwllheli	Pwllheli
Sir y Fflint	Rhuthin
Rhuthun	Rhymney
Y Rhyl	Rhyl
Rhymni	Swansea East
Treorci	Treorchy
Wrecsam	Wrexham

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 1796 (Cy.171)

CEFН GWLAD, CYMRU

Rheoliadau Mynediad i Gefn
Gwlad (Mapiau Dros Dro a
Therfynol) (Cymru) 2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 1796 (W.171)

COUNTRYSIDE, WALES

The Countryside Access
(Provisional and Conclusive Maps)
(Wales) Regulations 2002

© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.50

W113/08/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090532-6



9 780110 905327